

Bwriwch olwg fanylach ar... IORWG

Mae'n aml yn cael ei ddiystyru heddiw, ond mae iorwg yn helpu llawer o'n bywyd gwylt lleol, yn enwedig ym misoedd hir y gaeaf. Mae'n blodeuo ar ddechrau'r hydref, ac mae neithdar yr iorwg yn ffynhonnell fwyd werthfawr i lawer o bryfed cyn y gaeaf, a gwenyn a gloynnod byw yn arbennig.

Mae ei aeron du hefyd yn rhoi cyflenwad o fwyd hollbwysig i lawer o adar yn ystod y gaeaf, pan mae llai o fwyd ar gael iddyn nhw. Mae iorwg trwchus yn cynnig lleoedd cuddio, clwydo, gaeafgysgu a nythu clyd i lawer o anifeiliaid, adar a phryfed yn ystod misoedd hir y gaeaf.

- Oherwydd ei fod yn gorchuddio llawr y coetir, mae iorwg fel blanced gynnes yn ystod oerfel y gaeaf gan warchod y ddaear rhag ia, a galluogi adar ac anifeiliaid coetir i chwilio am fwyd yn y gwasarn deiliog oddi tano.
- Yn ogystal â bwydo ar gelyn, mae lindys glöyn byw Glas y Celyn i'w gweld yn gyffredin ar iorwg!
- Yn yr hen Roeg, byddai offeiriaid yn cyflwyno torch o iorwg i barau oedd newydd briodi. Heddiw mae'n arferol o hyd i dusw blodau'r briodferch gynnwys sbrigrin o iorwg.
- Credid ar un adeg, os oedd iorwg yn tyfu ar waliau tŷ, y byddai'r preswylwyr yn ddiogel rhag gwrachod.



Ewch i Kew i ddysgu mwy am eiddew a gwefan y Cyngor i gael gwybod mwy am fywyd gwylt rhyfeddol Sir Gaerfyrddin.



Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Biodiversity Partnership

 **Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

 **Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council**